



# Cyngor Sir Ceredigion

## Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod rheoli perfformiad yn gadarn yn hanfodol er mwyn cyflawni ei weledigaeth o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n cynnig gwerth am arian ac sy'n cynnal economi gref ac amgylchedd iach, wrth hyrwyddo llesiant ymhlith ein pobl a'n cymunedau.

Mae rheoli perfformiad yn ymwneud â chymryd camau gweithredu i wella perfformiad y cyngor a gwella'r canlyniadau i bobl a chymunedau lleol. Mae'n golygu *mesur* y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, asesu *ansawdd* y gwasanaethau hynny a sut yr ydym yn *rheoli ein hadnoddau*, er mwyn darparu *gwerth am arian* i bobl Ceredigion. Mae'n dweud wrthym pa mor dda yr ydym yn gwneud, y manau lle'r ydym yn perfformio'n dda ac y gallwn ddysgu oddi wrthynt, a lle y mae angen i ni wella.

Bydd y Cyngor yn sefydlu Fframwaith Rheoli Perfformiad effeithiol a fydd yn cael ei wreiddio yn niwylliant y sefydliad. Bydd y Fframwaith yn darparu ymagwedd safonedig o reoli perfformiad er mwyn cynnal lefelau perfformio ar draws y Cyngor ac a fydd yn dangos 'y llinyn aur', fel bod pawb yn glir sut mae eu rôl yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cyngor a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Prif egwyddorion rheoli perfformiad effeithiol yng Nghyngor Sir Ceredigion yw:

- Bod gan bawb ran i'w chwarae yn y broses o reoli perfformiad
- Bod y Cabinet a'r Grŵp Arweiniol yn derbyn gwybodaeth amserol, o ansawdd uchel ynghylch perfformiad, er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth drylwyr
- Bod Hunanasesu ac Ymarfer Myfyriol yn rhan hanfodol o wella'n barhaus
- Bod ymateb cyflym i wybodaeth am berfformiad
- Bod rheoli perfformiad yn ategu llywodraethu da ac atebolrwydd
- Bod cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gyfrwng y broses ddemocrataidd, y Bwrdd Perfformiad a'r Grŵp Arweiniol
- Bod y cynlluniau busnes a'r mesurau perfformio yn adlewyrchu Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor, i sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu bodloni a'n bod yn gwybod ein bod yn darparu'r gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir
- Bod arfarniadau perfformiad personol yn cefnogi'r staff i fod yn gyfrifol am reoli eu perfformiad eu hunain ac i geisio gwella o hyd.

Bydd y Cyngor yn rheoli ei berfformiad corfforaethol a gweithredol er mwyn:

- Sicrhau y bodlonir y gofynion statudol a'r amcanion polisi, yn benodol:
  - Rhan 6 o Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

2021 - y ddyletswydd i adolygu perfformiad, ymgynghori ynghylch perfformiad, adrodd ar berfformiad, trefnu Asesiad o Berfformiad gan Banel ac ymateb i Asesiad o Berfformiad gan Banel.

- Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – yr angen i bennu ac adolygu cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol
  - Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol drwy well perfformiad a/neu effeithlonrwydd.
  - Sicrhau bod prosiectau mawr ac arloesol yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
  - Cefnogi gwaith partneriaeth effeithiol.
  - Cadw a hybu enw da'r Cyngor.
  - Gwella'r gwaith o gynllunio, blaenoriaethu a dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth.
  - Nodi arloesedd a chreadigrwydd er mwyn gweld cyfleoedd i wella perfformiad a/neu effeithlonrwydd.
  - Bod yn hunanymwybodol a gweld a ydym yn cyflawni'r canlyniadau cywir.
  - Dysgu oddi wrth feincnodi ac arfer orau, naill ai'n fewnol neu'n allanol.

Bydd y Fframwaith Perfformio yn berthnasol i holl wasanaethau a swyddogaethau Cyngor Sir Ceredigion ac yn benodol bydd yn rhan o'i ymagwedd tuag at y canlynol:

1. Datblygu Strategaeth Gorfforaethol
2. Pennu Polisi
3. Pennu ac adolygu Amcanion Llesiant Corfforaethol
4. Cynnal Hunanasesiad ac Asesiad gan Banel o Berfformiad ledled y sefydliad
5. Bodloni'r dyletswyddau statudol
6. Cynllunio a monitro busnes
7. Dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth
8. Y broses o Reoli Risg
9. Rheoli prosiectau corfforaethol
10. Monitro strategaethau a chynlluniau'r Cyngor
11. Monitro'r dyletswyddau statudol, er enghraifft ynghylch cydraddoldeb, iaith, iechyd a diogelwch a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol
12. Rheoli a monitro clod, cwynion a sylwadau
13. Ymgysylltu ac ymgynghori i gael safbwyntiau'r trigolion a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â pherfformiad y Cyngor.

Mae rheoli perfformiad yn broses barhaus a bydd y Cyngor yn ei defnyddio i herio'i hun yn barhaus i wella. Bydd y Fframwaith yn disgrifio'r cylch parhaus hwn.

Arweinydd y Cyngor yw deilydd y portffolio ar gyfer rheoli perfformiad a chadeirydd y Bwrdd Perfformiad hefyd. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y glynir wrth bolisi'r Cyngor ar Reoli Perfformiad, ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Uwch-reolwyr sy'n rhan o Grŵp Arweiniol y Cyngor. Mae'r gwasanaeth Partneriaethau, Perfformiad ac Amddiffyn y Cyhoedd yn gyfrifol am reoli, monitro ac adolygu perfformiad o ddydd i ddydd, tra bod y Tîm Perfformiad ac Ymchwil yn dadansoddi ac yn adrodd ar berfformiad.

Mae cael mynediad at ddata amserol a chywir ar berfformiad yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o reoli perfformiad a pharatoi ar gyfer arolygiadau rheoleiddio. Mae'r Fframwaith Perfformiad yn cefnogi hyn drwy roi ar waith ddull safonol o fesur ac asesu perfformiad drwy system rheoli perfformiad electronig Teifi.

Bydd y Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cael ei adolygu o dro i dro er mwyn sicrhau bod y prosesau sydd ynddo yn parhau'n addas i'r diben ac yn parhau i gefnogi'r Cyngor wrth iddo gyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. O ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y broses o gynnal Hunanasesiad a adolygir yn flynyddol ar ddiwedd pob cylch.